

Technoleg, gwefannau a meddalwedd

Rhestr wirio

Maes gweithgarwch	✓
<ul style="list-style-type: none">○ Cynlluniwch ymlaen ar gyfer dwyieithrwydd. Mae'n haws dylunio gwefan dwyieithog nag ychwanegu tudalennau Cymraeg at wefan uniaith.	
<ul style="list-style-type: none">○ Cynigiwch ddewis iaith yn rhagweithiol o ddechrau ymweliad y defnyddiwr ar y We. Gellir defnyddio tudalen lanio.○ Sicrhewch bydd y defnyddiwr yn gallu newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar bob tudalen gyfatebol yn yr iaith arall.○ Dylid defnyddio botwm iaith amlwg, fel arfer yng nghornel dde ar frig y dudalen.	
<ul style="list-style-type: none">○ Dylai'r fersiynau Cymraeg a Saesneg y rhyngwyneb defnyddiwr gyfleu lefel gydradd o wybodaeth a manylder bob amser.○ Diweddarwch eich tudalennau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd. Pan nad yw hyn yn bosib mewn achosion brys, rhowch neges ar y dudalen sydd yn absennol yn nodi pryd y bydd y dudalen ar gael yn y ddwy iaith.	
<ul style="list-style-type: none">○ Sicrhewch fod dewis iaith y defnyddwyr yn eu dilyn wrth ddefnyddio dolen o'ch gwefan i wefan arall.	
<ul style="list-style-type: none">○ Cyfryngau cymdeithasol. Er mwyn cyrraedd y nifer uchaf posib o bobol ar y gwefannau hyn defnyddiwch y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd fwy anffurfiol o gyfathrebu sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i chi.○ Dylai negeseuon corfforaethol gael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Gallwch gael un cyfrif dwyieithog neu ddau gyfrif - un Gymraeg ac un Saesneg.○ Dylech ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir ar eich safleoedd yn yr iaith y maent wedi cael eu gofyn.○ Anogwch gyfranwyr i drafodaethau o'r ddwy iaith.	
<ul style="list-style-type: none">○ Sicrhewch fod meddalwedd Cymraeg ar gael ar gyfrifiaduron cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg. Gellir dod o hyd i nifer o'r rhain yn rhad ac am ddim.○ Sicrhewch fod meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg ar gael.	

Technology, websites and software

Checklist

Area of activity	✓
<ul style="list-style-type: none">○ Plan ahead for bilingualism. It is much easier to design a bilingual website than to add Welsh pages to a monolingual site.	
<ul style="list-style-type: none">○ Provide proactive language choice from the outset for users visiting websites. Consider using a splash page.○ Ensure that users can switch from Welsh to English and vice versa on every corresponding page in the other language.○ A clear language button should be available; this should usually be situated on the top right hand corner.	
<ul style="list-style-type: none">○ Ensure that Welsh and English versions of the user interface always convey equal levels of information and detail.○ Update Welsh and English pages simultaneously. Should this not be possible, such as when urgent updates or responses are required, include a message on the absent page which explains when it will be available in both languages.	
<ul style="list-style-type: none">○ Ensure that users' language choice is adhered to as they use links from your website to go to other websites	
<ul style="list-style-type: none">○ Social media. To reach the highest possible number of people on these sites use the Welsh and English languages. Social media offers a more informal form of communication which gives you more flexibility.○ Corporate messages should be published bilingually. You could have one bilingual account or two separate accounts – one in Welsh and the other in English.○ You should answer any questions asked on your sites in the language that they were posted in.○ Encourage contributors to discussions in both languages.	
<ul style="list-style-type: none">○ Ensure that Welsh language software is installed on the computers of Welsh speaking colleagues. You can obtain most Welsh language software for free.○ Ensure that Welsh language spelling and grammar checking software is available.	